| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHIANT** |
| **DYDDIAD:** | **21 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **LLYWODRAETHU GWYBODAETH - ADRODDIAD BLYNYDDOL YR UWCH BERCHENNOG RISG GWYBODAETH (UBRG) AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2015 - 31 MAWRTH 2016** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r Aelodau am y Lefel Gydymffurfiaeth a'r Risg** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **UBRG / Swyddog Monitro<br>Est. 2586 lbxcs@ynysmon.gov.uk** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **UBRG/ Swyddog Monitro<br>Est. 2586 lbxcs@ynysmon.gov.uk** |

## 1. Pwrpas yr adroddiad hwn

Rhoi dadansoddiad yr Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant o'r materion Llywodraethu Gwybodaeth (LlG) allweddol am y cyfnod 1 Ebrill 2015 hyd at 31 mis Mawrth 2016 a chrynhoi'r blaenoriaethau cyfredol.

## 2. Rhagarweiniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gydymffurfiaeth y Cyngor â gofynion cyfreithiol wrth ymdrin â gwybodaeth gorfforaethol, gan gynnwys cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998; Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000; Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (Arwylio) a chodau ymarfer perthnasol.

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys sicrwydd ynghylch gwelliant parhaus o ran rheoli risgiau i wybodaeth yn ystod 2015-2016; a hefyd yn nodi cynlluniau i'r dyfodol. Mae'n adrodd ar gyswllt y Cyngor gyda rheoleiddwyr allanol ac yn darparu gwybodaeth am ddigwyddiadau diogelwch, achosion o dorri cyfrinachedd, neu "achosion cael a chael", yn ystod y cyfnod perthnasol.

Fel UBRG nid yw'r awdur ar hyn o bryd yn medru darparu asesiad cynhwysfawr o lefel y risg wybodaeth, na'r rheolaethau sydd ar waith, a elwir yn *Ddatganiad o Reolaeth*, a hynny am y rhesymau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

## 3. Cefndir

LlG yw'r ffordd y mae sefydliadau yn prosesu a rheoli gwybodaeth. Yn ei ystyr ehangaf, mae'r ymadrodd yn cynnwys yr holl ystod o wybodaeth a gedwir yn gorfforaethol, gan gynnwys cofnodion cyfrifo ac ariannol, polisïau, contractau ayb. Fodd bynnag, i ddibenion yr adroddiad hwn, ystyr LlG yw sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn defnyddio *gwybodaeth bersonol;* hynny yw gwybodaeth am bobl, p'un a ydynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth neu'n gweithio i'r Cyngor.

Mae trefniadau LlG cadarn yn rhoi sicrwydd bod y ffordd yr ydym yn ymdrin â gwybodaeth bersonol yn effeithiol, yn gyfreithlon ac yn ddiogel. Mae deddfwriaeth yn gosod cyfrifoldeb ar y Cyngor i gadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac mae trefniadau LlG yn fodd i ymateb os peryglir diogelwch gwybodaeth bersonol.

## 4. Llywodraethu Gwybodaeth yn y Cyngor

Mae'r Cyngor yn casglu, storio, prosesu a chael gwared ar swmp mawr o wybodaeth. Yn benodol, fodd bynnag, mae cadw a defnyddio gwybodaeth am bobl yn golygu bod risg gynhenid o golli, difrodi neu ddatgelu gwybodaeth yn anfwriadol. Mae'n ddrud hefyd i gasglu, defnyddio a chynnal gwybodaeth bersonol a, phan fydd pethau'n mynd o chwith, mae'n ddrud i'w hadfer. Mae'n naturiol felly y dylid rheoli gwybodaeth yr un mor effeithlon ag y rheolir holl asedau gwerthfawr eraill y Cyngor, megis pobl, prosesau busnes ac isadeiledd.

Rhaid i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol a diogelu'r wybodaeth bersonol sydd ganddo drwy gydol cylch bywyd y wybodaeth honno; o'r adeg pan gafodd y wybodaeth ei chreu a phan fydd gwybodaeth yn cael ei storio, ei defnyddio, ei chadw, ei harchifo a'i dileu.

Y prif yrrwr statudol yw Deddf Diogelu Data 1998; gall torri'r ddeddf mewn modd sylweddol arwain at gosbau ariannol mawr, sef uchafswm o £500k ar hyn o bryd. Yn ogystal, os yw data am unigolion yn cael ei rannu neu ei ddatgelu'n anghywir, gan achosi niwed (pryder a / neu ddifrod sylweddol) mae ganddynt hawl i gael iawndal.

Mae'n ddefnyddiol ar y pwynt hwn i esbonio bod cryn dipyn o waith archwilio, gan gynnwys gwaith gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (2013-2014) wedi tynnu sylw at ddiffygion yn nhrefniadau diogelu data'r Cyngor. Ers 2013, mae'r Cyngor wedi buddsoddi i wella ei gydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelu Data ac erbyn hyn mae ganddo'r polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol i gefnogi cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyrir ei fod yn arfer da i gael UBRG i roi cyfeiriad ac arweinyddiaeth ar lefel uwch. Cyflawnir y rôl hon yma gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a'r Swyddog Monitro. Er mwyn ymdrin â'r risg gwybodaeth, sefydlwyd **Bwrdd**

**Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol** (BLlGG) ym mis Tachwedd 2014, a gadeirir gan yr UBRG. Mae'r Grŵp hwn yn fforwm priodol ar gyfer mynd i'r afael â materion LlG. Mae'n derbyn adroddiadau ar ba mor dda y mae pob Gwasanaeth yn perfformio mewn meysydd rheoli gwybodaeth allweddol. Mae'n asesu risg ac yn argymell a monitro camau i liniaru risgiau i asedau gwybodaeth y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol. Gall y BLlGG adrodd am faterion yn uniongyrchol i Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Cyngor.

Mae swyddi LlG eraill o fewn y Cyngor yn cynnwys:

- **Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol**
- **Swyddog Gwybodaeth a Chwynion Corfforaethol**
- **Perchnogion Asedau Gwybodaeth** - Penaethiaid Gwasanaeth sy'n *'berchen'* ar yr asedau ac sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu hasedau gwybodaeth yn cefnogi'r busnes yn briodol, a bod y risgiau a'r cyfleoedd cysylltiedig yn cael eu monitro a'u gweithredu (wedi ei gynnwys o fewn eu disgrifiadau swydd diwygiedig);
- **Gweinyddwyr Asedau Gwybodaeth** - swyddogion enwebedig sy'n sicrhau y dilynir polisïau a gweithdrefnau, gan gydnabod digwyddiadau diogelwch gwirioneddol neu bosib, a chynnal y cofrestrau asedau gwybodaeth (wedi ei gynnwys o fewn eu disgrifiadau swydd diwygiedig);
- **Archwilio mewnol**

## 5. Risgiau a Rheolaethau allweddol y Sefydliad

Ni all yr UBRG adrodd ar ddigonolrwydd y rheolaethau a'r mesurau lliniaru risg gwybodaeth ar hyn o bryd ar gyfer pob ased hollbwysig a hynny oherwydd nad oes gan y Cyngor ddealltwriaeth gyflawn hyd yma o'r risgiau gwybodaeth a'r mesurau lliniaru a'r rheolaethau sydd wedi eu sefydlu.

Fodd bynnag, mae llawer o gynnydd wedi'i wneud i ddatblygu ymwybyddiaeth am risgiau gwybodaeth ac i gyflwyno mecanweithiau i reoli'r risg.

Mae'r Cyngor wedi nodi risgiau o ran gwybodaeth yn ei gofrestrau risg corfforaethol a'i gofrestrau risg gwasanaeth.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod niwed a gofid i unigolion, cosbau ariannol unigol, camau gorfodi, cyhoeddusrwydd gwael, a cholli hyder yn y Cyngor yn risgiau sy'n gysylltiedig â'i asedau gwybodaeth.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y risgiau canlynol i ddiogelwch ei wybodaeth:

- **esgeulustod** neu **gamgymeriad dynol;**
- **mynediad heb awdurdod** neu **amhriodol,** gan gynnwys prosesu data personol cyfrinachol heb sail gyfreithiol i wneud hynny;

- **colli** neu **ddwyn** cyfarpar y cedwir gwybodaeth arno;
- **systemau** neu offer **yn methu;**
- amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld megis tân, llifogydd a ffactorau amgylcheddol eraill;
- **mynediad anaddas,** edrych ar wybodaeth i bwrpas nad yw wedi ei benodi / awdurdodi;
- **mynediad heb awdurdod,** ddefnyddio ID a chyfrineiriau pobl eraill;
- **diogelwch ffisegol gwael;**
- **rheolaethau mynediad amhriodol** sy'n caniatáu defnydd anawdurdodedig;
- **diffyg hyfforddiant** ac ymwybyddiaeth;
- **hacio** ymosodiadau;
- **troseddau 'blagio'** lle ceir gafael ar wybodaeth drwy dwyll.

Yn ogystal â mesurau technegol a chorfforol i ddiogelu gwybodaeth y Cyngor, sefydlwyd y prif fesurau diogelu technegol a sefydliadol canlynol i ddiogelu rhag risgiau gwybodaeth:

- **Polisïau** a gweithdrefnau **LlG** addas
- **Cofrestr Asedau Gwybodaeth** ragarweiniol**;**
- **hyfforddiant diogelu data** addas i staff ar sail dreigl;
- offer **TGCh sydd wedi ei amgryptio;**
- **cadw cofnod o wersi a ddysgwyd ar lefel gwasanaeth;**
- **gweithdrefnau i gydnabod ac adrodd ar ddigwyddiadau diogelwch data,** gan gynnwys methodoleg i archwilio a dadansoddi difrifoldeb digwyddiadau**;**
- Cesglir ac adroddir ar **Ddangosyddion Perfformio Allweddol LLG** i'r BLlGG bob chwarter;
- Nodi, dynodi a hyfforddi **swyddi LLG allweddol;**
- **Caffael Gwasanaethau'r Cyngor** mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r drefn diogelu data;
- Cymryd rhan yng **Nghytundeb Llywodraeth Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol** er mwyn sicrhau bod rhannu data personol yn gyfreithlon ac yn gymesur.

Mae rhai o'r materion pwysicaf a restrir uchod yn cael sylw manylach isod.

## 5.1 Cofrestr Asedau Gwybodaeth

Mae BLlGG y Cyngor wedi datblygu fersiwn gyntaf y Cofrestr Asedau Gwybodaeth. Mae Cofrestr Asedau Gwybodaeth yn allweddol ar gyfer deall pa wybodaeth a gedwir gan y sefydliad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â hwy. Mae'r gofrestr yn caniatáu mapio gwybodaeth a systemau gwybodaeth wrth iddynt ryngweithio â newidiadau i ofynion busnes a'r amgylchedd technegol.

Nid yw Cofrestr Asedau Gwybodaeth y Cyngor wedi ei datblygu hyd yma i'r graddau bod gwybodaeth ddigonol am y peryglon i'r asedau yn cael ei chasglu ar lefel ronynnog. Fodd bynnag, mae gwaith datblygu i nodi'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â phob un o systemau ac asedau hollbwysig y Cyngor yn cael ei drefnu ar gyfer y flwyddyn hon; bwriedir y bydd y gwaith hwn yn nodwedd bwysig yn adroddiad yr UBRG ar y cyfnod 2016-2017. Mae'n debygol y bydd gwasanaethau angen cefnogaeth gorfforaethol i wella eu Cofrestrau Asedau Gwybodaeth. Gan y bydd yn rhaid gwneud hyn heb adnoddau ychwanegol, bydd yn cael ei wneud ar sail dreigl ac yn ôl y risg; asesir y risg ar sail perfformiad yn y gorffennol a'r perfformiad cyfredol ac ar sail sensitifrwydd y deunydd a gedwir gan bob Gwasanaeth.

### 5.2 Polisïau IG allweddol a Llywodraethu

Mae polisïau yn elfennau allweddol a phwysig yn nhrefniadau LlG y Cyngor. Mae gan Benaethiaid Gwasanaeth y Cyngor, yn eu swyddogaethau fel Perchenogion Asedau Gwybodaeth, rôl unigol o ran gwreiddio a chynnal polisïau ynglŷn â defnyddio a thrin gwybodaeth a fydd yn gwella ansawdd a chysondeb y trefniadau rheoli gwybodaeth ar draws y Cyngor.

Mae'r polisïau LlG allweddol canlynol ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Mae'r polisïau yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gan y BLlGG. Mae'r gwaith hwn wedi ei amserlennu a bydd yn cael ei adolygu'n barhaus.

- Polisi Ddigwyddiadau Diogelwch Data
- Polisi Diogelu Data
- Polisi Desg Glir
- Polisi Rheoli Cofnodion
- Polisi a Chanllawiau Categoreiddio Data Personol
- Polisi Mynediad at Wybodaeth
- Polisi Asesu'r Effaith ar Breifatrwydd
- Polisi Risg Gwybodaeth

Mae'r Polisi Desg Glir, y Polisi Rheoli Cofnodion a'r Polisi Categoreiddio Data yn orfodol ar gyfer staff y Cyngor. Mae hyn yn sicrhau bod gweithwyr yn glir ynghylch disgwyliadau'r Cyngor yn y maes hwn.

### 5.3 Derbyn Polisïau

Mae'r cysylltiad rhwng derbyn polisïau (h.y. system i dystiolaethu bod gweithwyr wedi derbyn hyfforddiant a'u bod yn deall a gweithredu'r polisïau) ac arfer da yn y maes diogelu data yn glir. Amlygwyd yr elfen hon gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ei adroddiad archwilio yn 2013, ac eto yn 2015, pan ofynnwyd i'r Cyngor sicrhau bod ganddo weithdrefnau ar gyfer casglu a choladu polisïau allweddol a bod staff wedi eu derbyn. 'Roedd hefyd yn argymhelliad gan

Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2014-15 dyddiedig 1 Rhagfyr 2015.

Ar ôl neilltuo'r cyllid angenrheidiol, mae'r Cyngor bellach wedi caffael system rheoli polisi ac mae'n ei gweithredu ar hyn o bryd. Bydd y system hon yn rhoi sicrwydd i'r UBRG bod aelodau unigol o staff wedi darllen a deall polisïau LlG allweddol a'u derbyn yn ffurfiol. Cwblhawyd yr hyfforddiant corfforaethol cychwynnol ar y system newydd hon ar 12 Gorffennaf 2016. (Bydd modd defnyddio'r system rheoli polisi yn ehangach ac mae hynny'n destun adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod Penaethiaid Gwasanaeth yn ddiweddar).

Update June 2016

## 5.4 Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd

Mae Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd (AEB) yn gyfrwng i helpu sefydliadau nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gydymffurfio â'u dyletswyddau diogelu data. Bydd AEB effeithiol yn caniatáu i sefydliadau fynd i'r afael â phroblemau yn gynnar, gan leihau'r costau cysylltiedig a niwed i enw da a allai ddigwydd fel arall.

Ar hyn o bryd nid yw Deddf Diogelu Data 1998 yn dweud bod rhaid cynnal AEB ond bydd yn dod yn orfodol fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd a fydd yn dod i rym ym mis Mai 2018 (nid yw'r penderfyniad Refferendwm UE diweddar yn effeithio ar hyn). Gall Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ofyn i sefydliad a yw wedi cynnal AEB. Yn aml, AEB yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddangos sut mae'r trefniadau prosesu data yn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data.

Mae angen cynnal AEB pan fydd prosiect yn cael ei ystyried, neu pan fydd newid mewn gweithgaredd newydd yn arwain at ddefnyddio data personol mewn ffordd wahanol; mae'r AEB a gwblhawyd yn cael eu hanfon at y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol.

Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, dim ond un AEB a gwblhawyd. Mae'n debygol bod hwn yn faes cydymffurfiaeth y mae'n rhaid ei wella. Mae rheswm i amau dibynadwyedd y wybodaeth hon. I ymdrin â'r diffyg cydymffurfiaeth dybiedig hon mae rheolwyr prosiect TGCh yn awr yn rhoi gwybod am systemau newydd neu newidiadau i arferion busnes cyfredol sy'n ymwneud â gwybodaeth am bobl.

## 5.5 Hyfforddiant

Mae hyfforddiant yn darparu sicrwydd i'r Cyngor bod ei staff yn deall gofynion y Ddeddf Diogelu Data fel y mae'n effeithio arnynt a defnyddwyr y gwasanaeth y Cyngor. Mae hyn yn bwysig, gan fod lefel a digonolrwydd yr hyfforddiant yn

diogelu rhag digwyddiadau diogelwch data ac yn cynnig mesurau lliniaru os oes rhaid rhoi gwybod am ddigwyddiad o’r fath i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae hyfforddiant IG corfforaethol y Cyngor yn cynnwys hyfforddiant sylfaenol gorfodol i bob aelod o staff bob dwy flynedd. Dechreuodd ym mis Mehefin 2014 a sefydlwyd proses i sicrhau bod cymaint â staff â phosib yn manteisio arno. Mae prosesau yn eu lle i sicrhau bod staff newydd yn cael yr hyfforddiant hefyd.

### 5.6 Llif Data Personol a Rhannu Gwybodaeth

Yn ogystal â chynnal Cofrestrau Asedau Gwybodaeth, mae'n ofynnol i Berchenogion Asedau Gwybodaeth (PAG) ddeall a chofnodi llif dogfennau i mewn ac allan o'r sefydliad. Gwneir hyn yn bennaf drwy gyfrwng protocolau rhannu gwybodaeth Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI), sydd yn arfer da ac yn fodd o nodi a yw gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo y tu allan i'r DU ac AEE, yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae protocolau rhannu gwybodaeth WASPI yn nodi risgiau i ddiogelwch gwybodaeth a’r mesurau lliniaru sydd wedi cael eu sefydlu.

Mae’r protocolau rhannu gwybodaeth sy’n cael eu datblygu yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn wedi eu hamlygu yn **Atodiad A.**

### 5.7 Digwyddiadau Diogelwch Data

Mae trefniadau LlG y Cyngor yn cydymffurfio â Chanllawiau'r Comisiynydd Gwybodaeth ynghylch adrodd am ddigwyddiadau diogelwch data sy'n torri dyletswydd statudol y Cyngor i ddiogelu data personol.

Felly, mae'r Cyngor wedi sefydlu Methodoleg Ddigwyddiadau Diogelwch Data ar gyfer nodi, ymchwilio ac adrodd am ddigwyddiadau diogelwch data. Cedwir cofnod corfforaethol a logiau gwasanaeth hefyd. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi datblygu teclyn ar gyfer asesu difrifoldeb digwyddiadau diogelwch data. Mae'r teclyn yn galluogi'r UBRG i asesu, mewn 3 cham, ddifrifoldeb digwyddiad diogelwch data drwy briodoli pwysoliad i ffactorau penodol sy’n ymwneud â maint a sensitifrwydd ddigwyddiadau. Mae digwyddiadau yn cael eu sgorio fel Lefel 0, Lefel 1, neu Lefel 2.

- **Lefel 0** ar gyfer achosion ‘cael a chael’
- **Lefel 1** lle cadarnhawyd digwyddiad diogelwch data, ond **nid** oes angen rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a rheoleiddwyr eraill.
- **Lefel 2** i gadarnhau digwyddiad diogelwch data y mae'n **rhaid** rhoi gwybod amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a rheoleiddwyr eraill (fel y bo'n briodol).

Mae nifer y digwyddiadau a gofnodwyd gan y Cyngor ar gael yn **Atodiad B.**

## 5.8 Gwaith Archwilio

Mae gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor raglen flynyddol o waith sy'n cynnwys elfennau LlG. Mae'r BLlGG yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i ddarparu sicrwydd penodol ar faterion LlG, megis cydymffurfio a rhoi prawf ar bolisïau allweddol; yn arbennig y Polisi Desg Glir.

Yn 2015, cwblhaodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol archwiliad cynhwysfawr o drefniadau LlG y Cyngor. Canfu'r archwiliad fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer LlG, rheoli risg a / neu reolaeth fewnol yn **rhesymol.** Nid yw casgliadau'r adroddiad Archwilio Mewnol yn anghydnaws â'r ffaith bod y Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi Rhybudd Gorfodi ffurfiol yn erbyn y Cyngor ym mis Hydref 2015. Roedd y Rhybudd Gorfodaeth yn ymwneud â materion hanesyddol yr oedd Cyngor yn dal i fynd i'r afael â nhw.

## 5.9 Dangosyddion Perfformiad Allweddol LlG (DPA)

Mae'r Cyngor yn monitro DPA penodol yn y maes LlG; rhai yn fisol ac eraill bob chwarter. Mae hefyd yn cyhoeddi data mynediad i wybodaeth ar ei wefan yn chwarterol.

Mae gwybodaeth yn **Atodiad C** am nifer y cwynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yr ymchwiliwyd iddynt gan y Comisiynydd Gwybodaeth,

Yn ogystal, mae'r Cyngor hefyd yn cynnal Adolygiadau Mewnol o'i ymatebion o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar gais achwynwyr; gweler y wybodaeth yn **Atodiad CH.**

Mae'r Cyngor hefyd yn ymchwilio i gwynion a wneir iddo ynghylch materion diogelu data; rhagor o wybodaeth yn **Atodiad D.**

Mae cais gwrthrych am gwybodaeth, sef yr hawl sylfaenol o dan Ddeddf Diogelu Data 1998 i gael gweld gwybodaeth bersonol amdanoch ei hun, yn elfen bwysig o LLG. Yn aml mae’r ceisiadau hyn yn gymhleth ac yn draul mawr ar adnoddau. Mae gwybodaeth am nifer y fath geisiadau a chydymffurfiaeth y Cyngor i’w gweld yn **Atodiad DD.**

# 6. Goruchwyliaeth gan Reoleiddwyr

Mae nifer o reoleiddwyr yn goruchwylio agweddau ar LlG, gan adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer sy'n ymwneud â'r mater. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adrodd yn rheolaidd i'r rheoleiddwyr ar nifer o faterion a, phan fo angen gwneud hynny, rhaid adrodd ar sail ad-hoc mewn perthynas â materion penodol.

Mae'n amlwg bod rheoleiddwyr yn rhoi atborth pwysig i'r Cyngor ar ei gydymffurfiaeth â'r gofynion statudol, sydd yn ei dro yn cynorthwyo'r UBRG ar gyfer ei asesiad o'r materion LLG.

## 6.1 Comisiynydd Gwybodaeth

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gyfrifol am orfodi a hybu cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998 (DDD) a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Adran 51 (7) Deddf Diogelu Data 1988 yn cynnwys darpariaeth sy'n rhoi grym i'r Comisiynydd Gwybodaeth asesu'r modd y mae unrhyw sefydliad yn prosesu data personol yn erbyn safonau 'arfer da' cyfredol, gyda chytundeb y rheolwr data.

Yn 2011 a 2012 bu'n rhaid i'r Cyngor lofnodi Ymgymeriadau ffurfiol gyda'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn dilyn nifer sylweddol o ddigwyddiadau diogelwch data, cafodd y Cyngor ei archwilio ar sail gydsyniol yn 2013 (gydag archwiliad dilyn-i-fyny yn 2014). Cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ei adroddiad yn 2013 a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion. Sefydlodd y Cyngor Fwrdd Prosiect Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol i lunio a chyflwyno Cynllun Gweithredu i wneud y gwelliannau gofynnol. 'Roedd bron i 100 o amcanion y cytunwyd arnynt wedi cael eu cyflawni'n llawn erbyn adeg yr ail archwiliad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2014.

'Roedd yr adroddiad ar yr archwiliad dilyn-i-fyny gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn Ionawr 2015 yn gostwng sgôr risg y Cyngor o 'goch' i 'ambr', ac yn tynnu'r Cyngor o'r categori monitro ffurfiol gan yr SCG. Felly, er bod yr ail archwiliad wedi dangos fod pethau wedi gwella roedd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth angen i'r Cyngor weithredu 66 o gamau ychwanegol. Ym mis Tachwedd 2014 sefydlodd y Cyngor y BLlGG fel cyfrwng i gyflawni'r ail Gynllun Gweithredu (Cynllun Gweithredu BLlGG cyfnerth ar gyfer LLG), a oedd yn codi o'r gwaith ail-archwilio. 'Roedd yn cynnwys amcanion tymor byr a thymor canol, ynghyd â goruchwyliaeth a chyfrifoldeb parhaus i gydymffurfio â threfniadau diogelu data .

Ar 1 Hydref 2015 cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth Rybudd Gorfodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998. Casglodd y Comisiynydd bod y Cyngor wedi mynd yn groes i'r seithfed Egwyddor Diogelu Data drwy fethu â: 'cymryd mesurau diogelwch priodol yn erbyn prosesu data personol mewn modd anawdurdodedig neu anghyfreithlon ac yn erbyn colli neu ddinistrio neu ddifrodi data personol yn ddamweiniol'. Mae'r materion a amlygwyd yn naw argymhelliad y Rhybudd Gorfodaeth bellach yn destun trydydd Cynllun Gweithredu a luniwyd gan y BLlRG ac sy'n cael ei weithredu gan is-grŵp o'r Bwrdd hwnnw. Bu'n rhaid ail-flaenoriaethu gwaith ac adnoddau i sicrhau y cwblheir yn gyntaf y gweithgareddau hynny a fyddai'n darparu'r amddiffyniad gorau i'r Cyngor pe bai achos arall o dorri'r rheolau.

Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rhybudd Gorfodaeth yn cynnwys 41 o gamau gweithredu i weithredu'r naw argymhelliad. Mae crynodeb o’r cynnydd a wnaed gyda'r naw pennawd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rhybudd Gorfodaeth i’w weld yn **Atodiad E.** Bydd gwaith ar Cynllun Gweithredu BLlGG, sef gwaith y bu’n rhaid rhoi stop arno oherwydd yr angen i fynd i'r afael â'r Rhybudd Gorfodaeth, yn ailddechrau unwaith y bydd y Cynllun Gweithredu ar gyfer y Rhybudd Gorfodaeth yn cael ei roi ar waith. Crynhoir Cynllun Gweithredu’r BLlGG yn **Atodiad F.**

## 6.2 Swyddfa Comisiynwyr Arwylio

Mae Swyddfa Comisiynwyr Arwylio (SCA) yn goruchwylio’r modd y cynhelir ffynonellau cadlyw a ffynonellau cudd-wybodaeth ddynol gan awdurdodau cyhoeddus yn unol â Deddf yr Heddlu 1997 a Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA). Mae'r drefn RIPA yn anelu at sicrhau y cynhelir gweithgareddau arwylio mewn modd sy'n cydymffurfio â hawliau dynol. Cyflawnir hyn drwy system o hunan-awdurdodi gan uwch swyddogion y mae’n rhaid eu bodloni bod y wyliadwriaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur; yna mae'n rhaid i farnwr gymeradwyo.

Yn ystod y flwyddyn, nodwyd nifer o newidiadau yn fewnol ac fe’u gweithredwyd er mwyn gwella trefniadau'r Cyngor ar gyfer cydymffurfio â RIPA er mwyn paratoi ar gyfer yr archwiliad SCA. Y gwelliannau oedd:

- Dynodwyd yr UBRG yn ffurfiol fel yr Uwch Swyddog Cyfrifol ar gyfer RIPA;
- Dynodwyd y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol yn Gydlynydd RIPA ar gyfer Cyngor;
- Diwygiwyd y Polisi RIPA;
- Crëwyd dwy gofrestr gorfforaethol newydd;
- Casglwyd yr adnoddau ymarferwyr ynghyd i’w cynnwys mewn un dudalen newydd, bwrpasol ar safle mewnrwyd y Cyngor;
- Darparwyd hyfforddiant priodol yn ystod y flwyddyn i swyddogion gorfodaeth, swyddogion awdurdodi a Phenaethiaid Gwasanaeth.

Archwiliwyd prosesau ac ymarferwyr y Cyngor gan SCA yn ystod mis Awst 2015 ac fe’u cafwyd yn foddhaol. Cymeradwyodd yr SCA weithdrefn y Cyngor sy'n sicrhau nad yw ei swyddogion awdurdodi wedi'u lleoli o fewn y gwasanaeth sy'n gwneud cais am awdurdodiad. Argymhellodd yr SCA fân-newidiadau i bolisi'r Cyngor ac mae'r rhain bellach wedi cael eu gwneud.

Bydd y Cyngor hefyd yn ymestyn goruchwyliaeth gorfforaethol dros y defnydd a wneir o weithgareddau arwylio nad ydynt yn cael eu rheoleiddio gan RIPA drwy sefydlu proses ar gyfer awdurdodi gweithgareddau arwylio nad oes a wnelo nhw â RIPA.

Mae crynodeb o ddefnydd y Cyngor o RIPA yn ystod y flwyddyn yn **Atodiad FF.**

## 6.3 Swyddfa’r Comisiynydd Camerâu Arwylio

Mae Swyddfa’r Comisiynydd Camerâu Arwylio (SCCA) yn goruchwylio cydymffurfiaeth â'r cod ymarfer ar gyfer camerâu arwylio. Sefydlwyd swyddfa'r comisiynydd dan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 i reoleiddio teledu cylch cyfyng ymhellach. Cwblhaodd y Cyngor becyn cymorth hunanasesu'r SCCA ym mis Rhagfyr 2015; bydd cynllun gweithredu yn cael ei roi ar waith. Mae'r Cyngor wedi dechrau proses o gynorthwyo ei ysgolion i gael sicrwydd eu bod yn cydymffurfio â’r Côd Ymarfer ar gyfer Camerâu Arwylio.

## 7. Casgliadau

Mae’r UBRG yn ystyried bod tystiolaeth ddogfennol sylweddol i ddangos:

- bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer LlG a chydymffurfiaeth diogelu data yn rhesymol effeithiol;
- gwnaed llawer o gynnydd (o sylfaen isel) i weithredu argymhellion gwaith archwilio Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth a gweithgarwch gorfodi;
- nid yw'r mesurau sydd eu hangen wedi eu rhoi ar waith yn llawn eto, a lle maent wedi eu gweithredu, nid ydynt wedi aeddfedu ddigon hyd yma i gyfiawnhau lefel uwch o sicrwydd;
- i symud i lefel uwch o sicrwydd bydd angen rhoi prawf ar y camau a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn a’u gweithredu’n llwyddiannus;
- mae lefel gydymffurfiaeth y Cyngor â materion diogelwch data (sy’n amrywio o wasanaeth i wasanaeth) yn parhau i fod yn risg ganolig i'r Cyngor.

**Atodiad A**

| **Cytundeb Cymru ar Rannu Gwybodaeth Bersonol (WASPI)**<br><br>**Protocolau Rhannu Gwybodaeth sydd wrthi'n cael eu datblygu:** |
|---|
| Un Pwynt Mynediad (UPM) ar gyfer Gwasanaethau Cymunedol, Ynys Môn |
| Dechrau'n Deg (Ynys Môn) |
| Tîm o amgylch y Teulu |
| Safonau Masnach *Prynwch Efo Hyder* Rhanbarth Gogledd Cymru |
| Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd Ynys Môn a Gwynedd |

**Atodiad B**

| **Digwyddiadau diogelwch data** |
|---|
| Lefel 0 – Digwyddiadau Lefel 1: 6 |
| Digwyddiadau Lefel 2: 0 |
| Digwyddiadau yr adroddwyd arnynt i'r SCG: 0 |

**Atodiad C**

| Cwynion ynghylch y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth |
| --- |
| Cyflwynwyd 4 o gwynion i'r SCG yn ystod y cyfnod hwn |
| Yn achos 1, bu'n rhaid anfon cwyn i'r achwynydd |
| Cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 2 achos; disgwyl am rybudd penderfyniad ynghylch un achos |

**Atodiad CH**

| Cwynion ac adolygiadau mewnol mewn perthynas â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth |
| --- |
| Derbyniwyd 17 o gwynion a cheisiadau am Adolygiadau Mewnol |

**Atodiad D**

| Cwynion i'r Cyngor mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelu Data |
| --- |
| Gwnaed un gŵyn dan y Ddeddf Ddiogelu data, ymchwiliwyd iddi ond ni chafodd ei chadarnhau. |

**Atodiad DD**

| **Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth a chydymffurfiaeth** |
|---|
| Derbyniwyd 28 o CGW. |
| Ymatebwyd i 65% ohonynt o fewn yr amserlen 40 diwrnod. |

**Atodiad E**

| Camau Gweithredu'n dilyn Rhybudd Gorfodaeth SCG | Statws | Statws CAG: Gwyrdd = wedi ei gwblhau; Amber= ar y trywydd iawn; Coch = hwyr |
|---|---|---|
| **1. DPA a mesurau monitro diogelu data'n cael eu monitro a'u gweithredu arnynt (gan gynnwys nifer a natur y digwyddiadau diogelwch gwybodaeth)** | DPA Diogelu Data wedi eu sefydlu ac yn cael eu hadrodd arnynt. | Gwyrdd |
| **2. Rhaglen hyfforddiant diogelu data gorfodol ar gyfer yr holl staff (gan gynnwys dechreuwyr newydd) a hyfforddiant gloywi yn flynyddol** | Mae rhaglen orfodol wedi cael ei sefydlu ar gyfer diogelu data ac mae'r Cyngor wrthi'n rhoi sylw i ddatblygu pecyn e-ddysgu. | Gwyrdd |
| **3. Bod cwblhau unrhyw hyfforddiant o'r fath yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n briodol** | Cwblhau hyfforddiant bellach yn cael ei fonitro a'i gofnodi'n briodol. | Gwyrdd |
| **4. Bod yr holl staff yn darllen, yn deall ac yn cydymffurfio gyda'r Polisïau (gan gynnwys y Polisi Rheoli Cofnodiadau)** | Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu proses gymeradwyo faniwal er mwyn cael sicrwydd bod hyn yn digwydd. Mae system derbyn polisïau wrthi'n cael ei gweithredu a'i datblygu ar hyn o bryd. | Amber |
| **5. Gwybodaeth yn cael ei chopïo ar serfiwr allanol wrth gefn yn ddyddiol** | Mae hyn bellach wedi ei weithredu. | Gwyrdd |
| **6. Y systemau wrth gefn yn cael eu profi o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau nad ydynt wedi dirywio a bod y wybodaeth yn parhau i fod ar gael i'w hadennill** | Bwriedir i'r gwaith hwn fod wedi'i gwblhau yn Awst 2016. | Amber |
| **7. Bod hawliau ffisegol yn cael eu dileu'n brydlon pan fydd staff yn gadael ac yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau bod dulliau rheoli priodol yn eu lle** | Mae mater hawliau wrthi'n cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd i ailwampio'r broses dechreuwyr a gadawyr er mwyn rhoi sicrwydd yn y maes hwn.. | Amber |
| **8. Bod y diffyg lle i storio cofnodiadau maniwal yn cael sylw** | Mae hyn bellach wedi cael sylw ac mae Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol y Cyngor â throsolwg o gynlluniau gweithredu'r adrannau | Gwyrdd |
| **9. Gwaith monitro cyson a rheolaidd yn cael ei wneud i orfodi'r polisi desg glir** | Mae hyn bellach wedi digwydd ac mae'n cael ei fonitro drwy gyfwng dangosydd perfformiad | Gwyrdd |

**Atodiad F**

| Crynodeb o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol | |
|---|---|
| Rheoli Fersiwn | Rheoli fersiwn i'w gynnwys ar yr holl bolisïau diogelu data |
| Diwygio polisïau | Cyfeirio at Gôd Ymarfer PIA Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wrth ddiwygio'r polisi |
| | Diwygio'r cyfeiriad at y Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth i Bwrdd Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol |
| | Cynnwys gwybodaeth adolygu yn y polisi Rheoli Cofnodiadau |
| | Adolygu'r Polisi Rhybudd Preifatrwydd i sefydlu a yw templedi sefydlog yn addas |
| | Diwygio'r Polisi Categoreiddio Data er mwyn nodi'r modd y dylid storio gwybodaeth sydd â marc diogelu arno |
| | Polisi Diogelwch TGCh i gynnwys proses dechreuwyr a gadawyr |
| | Cywiro'r cyfeiriadau anghywir sydd yn y Polisi TGCh |
| | Polisi Diogelwch Gwybodaeth i gynnwys diogelwch cofnodiadau maniwal |
| | Mofyn sicrwydd bod caledwedd yn cael ei ddychwelyd fel rhan o'r broses pan fydd gweithwyr yn gadael neu'n symud |
| | Cynnwys gwybodaeth adolygu yn y polisi Rheoli Cofnodiadau |
| | Adolygu'r Polisi Rhybudd Preifatrwydd i sefydlu a yw templedi sefydlog yn addas |
| | Diwygio'r Polisi Categoreiddio Data er mwyn nodi'r modd y dylid storio gwybodaeth sydd â marc diogelu arno |
| | Polisi Diogelwch Gwybodaeth i gynnwys diogelwch cofnodiadau manial |

| | |
|---|---|
| | Adolygu’r Rhybuddion Prosesu Teg er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol |
| Cydymffurfiaeth â pholisi | Sicrwydd bod mynediad at gyfrifon wedi ei atal |
| | PIA yn rhan o fethodoleg Rheoli Prosiect. Y Prosiect Gweithio’n Gallach i adroddiad i’r BLlGG yn flynyddol |
| Nodi asedau a risgiau | Datblygu’r Gofrestr Wybodaeth Asedau |
| | Datblygu log corfforaethol o ddigwyddiadau’n ymwneud â diogelwch data |
| | Datblygu cofrestr Protocol Rhannu Gwybodaeth |
| | Proses PIA i gynnwys arwyddo a hyfforddiant |
| Rheoli cofnodiadau’n effeithiol oddi ar y safle | BLlGG i ryddhau cyfarwyddyd i PAG i mofyn eu sicrwydd bod ardaloedd oddi ar y safle’n cael eu rheoli’n unol â’r polisïau perthnasol |

**Appendix FF**

| Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio | |
|---|---|
| Nifer yr awdurdodiadau Arwylio a ganiatawyd: | 0 |
| Nifer yr awdurdodiadau Arwylio sydd mewn grym: | 0 |
| Nifer yr awdurdodiadau a gyflwynwyd i ynad: | 1 |
| Nifer yr awdurdodiadau a wrthodwyd gan ynad: | 0 |
| Nifer yr awdurdodiadau ymyrryd gydag eiddo a ganiatawyd: | 0 |
| Nifer yr awdurdodiadau Arwylio ymwthiol a ganiatawyd: | 0 |
| Nifer yr awdurdodiadau CHIS oedd yn bodoli ar 1 Ebrill 2015: | 0 |
| Nifer yr awdurdodiadau CHIS a ganiatawyd: | 1 |
| Nifer yr awdurdodiadau CHIS a ganslwyd: | 1 |
| Nifer yr awdurdodiadau CHIS oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2016: | 0 |